Estyn

Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru

## Adroddiad ar ansawdd dysgu oedolion yn y gymuned

## ym

## Mhowys

## Mawrth 2008

## gan


## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru


Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod - The Corporate Standard
Health at Work

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD
GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2008: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyflwyniad

Diffinnir dysgu oedolion yn y gymuned fel darpariaeth addysgol ar gyfer oedolion a wneir gan:

- awdurdodau lleol;
- sefydliadau gwirfoddol gan gynnwys Cymdeithasau Addysg y Gweithwyr a'r YMCA;
- colegau addysg bellach; a
- sefydliadau addysg uwch.

Ariennir y ddarpariaeth gan yr awdurdod lleol a/neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n cynnwys dysgu a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru trwy'r awdurdod lleol, ond a gyflwynir gan sefydliad addysg bellach. Mae hefyd yn cynnwys dysgu a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru trwy'r coleg addysg bellach, ond a gyflwynir gan yr awdurdod lleol.

Mae Estyn yn ystyried darpariaeth o safbwynt dysgwr. Yn unol â'r dull hwn, cynhelir arolygiadau dysgu oedolion yn y gymuned ar sail y ddarpariaeth ddysgu sydd ar gael i ddysgwyr o fewn ardal 'teithio i ddysgu'. Yn y rhan fwyaf o achosion, ardal awdurdod lleol neu CCAH unigol yw hwn. Mae'r arolygiad yn ystyried y rhwydwaith sy'n datblygu o ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned yn yr ardal. Gallai rhai darparwyr sy'n cyflwyno dysgu oedolion yn y gymuned yn yr ardal arolygu hefyd weithredu ar sail ranbarthol, gan ddarparu ystod eang o addysg a hyfforddiant. Mae'r gweithgarwch hwn yn parhau y tu allan i gwmpas yr arolygiad uniongyrchol.

Arolygwyd dysgu oedolion yn y gymuned ym Mhowys fel rhan o raglen genedlaethol chwe blynedd (2004-2010) o arolygiadau. Diben y rhaglen yw nodi nodweddion da a diffygion dysgu oedolion yn y gymuned er mwyn i'r darparwyr allu gwella ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr. Bwriedir i ganlyniadau'r arolygiad roi mwy o wybodaeth i ddysgwyr am ansawdd darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned.

Mae pob arolygiad a gynhelir o dan y trefniadau yn cymhwyso'r egwyddorion canlynol:

- defnyddio fframwaith arolygu cyffredin sy'n gyffredin i bob sector addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- pwyslais ar arfarniadau darparwyr o'u gwaith;
- cyfranogiad enwebai'r darparwr sy'n gweithio gyda'r tîm arolygu; ac
- arolygu sampl o ddarpariaeth.

Cynhelir arolygiadau o ddysgu oedolion yn y gymuned gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig yn bennaf ar brotocolau arolygu ardal Estyn. Mae'r dull hwn yn ystyried darpariaeth o safbwynt dysgwr ac mae hefyd yn ystyried rhwydwaith y ddarpariaeth sydd ar gael mewn ardal.

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn rhwng 3 Mawrth 2008 a 13 Mawrth 2008 gan dîm a arweiniwyd gan Arolygwyr Ei Mawrhydi o Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd y tîm yn cynnwys arolygwyr ychwanegol ac aseswyr cymheiriaid a ryddhawyd o ddarparwyr eraill dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru.

Mae'r tîm wedi adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr, ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir, ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth ac a yw'r darparwyr yn darparu gwerth am arian.

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Mae'r meysydd arolygu dysgu oedolion yn y gymuned yn cynnwys:

- Addysg Sylfaenol i Oedolion;
- Cymraeg i Oedolion;
- Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill;
- Dysgu Oedolion; a
- Datblygiad Cymunedol.

Mae Dysgu Oedolion yn cwmpasu pob dosbarth ar gyfer oedolion a gyflwynir yn y gymuned. Mae'r rhain yn cynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ieithoedd a chelf a dylunio.

Mae Datblygiad Cymunedol yn cynnwys prosiectau cymunedol fel Cymunedau yn Gyntaf a Chyfrifon Cymuned sy'n Dysgu.

Ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1 y Fframwaith Arolygu Cyffredin, dyfernir gradd gyffredinol ar draws pob darparwr. Dyfernir gradd gyffredinol hefyd ar draws y darparwyr ar gyfer pob maes dysgu.

Dyfernir gradd gyffredinol i bob un o Gwestiynau Allweddol 2-7 ar draws pob darparwr.

**Disgrifwyr gradd**

Mae’r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli’r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

**Gradd 1** da gyda nodweddion rhagorol
**Gradd 2** nodweddion da a dim diffygion pwysig
**Gradd 3** nodweddion da yn gorbwyso diffygion
**Gradd 4** rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
**Gradd 5** llawer o ddiffygion pwysig

Mae Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn gofyn i’r darparwr baratoi datganiadau ysgrifenedig o’r camau y maent yn bwriadu eu cymryd i fynd i’r afael â’r argymhellion yn yr adroddiad arolygu a’r graddfeydd amser ar gyfer cwblhau’r camau arfaethedig.

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | | |
|---|---|---|
| **Cyd-destun** | | **1** |
| **Crynodeb** | | **4** |
| **Argymhellion** | | **8** |
| **Safonau** | | **9** |
| Cwestiwn Allweddol 1: | Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? | 9 |
| **Ansawdd addysg a hyfforddiant** | | **11** |
| Cwestiwn Allweddol 2: | Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? | 11 |
| Cwestiwn Allweddol 3: | Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? | 12 |
| Cwestiwn Allweddol 4: | Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? | 13 |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | | **16** |
| Cwestiwn Allweddol 5: | Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol? | 16 |
| Cwestiwn Allweddol 6: | Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? | 17 |
| Cwestiwn Allweddol 7: | Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? | 18 |
| **Safonau a gyflawnir gan ddysgwyr yn y meysydd dysgu a arolygwyd** | | **20** |
| • Addysg Sylfaenol i Oedolion a Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill | | 20 |
| • Cymraeg i Oedolion | | 21 |
| • Dysgu Oedolion | | 22 |
| • Datblygiad Cymunedol | | 23 |
| **Ymateb darparwyr i ganfyddiadau'r adroddiad** | | **25** |
| **Atodiad 1** | Sail dystiolaeth yr arolygiad | |
| **Atodiad 2** | Y tîm arolygu | |
| **Atodiad 3** | Data ac ystadegau: Nodyn esboniadol | |

## Cyd-destun

### Proffil daearyddol a demograffig o Bowys

1 Mae Powys yn sir eang hynod wledig, sy'n cynnwys ucheldir yn bennaf, yn cwmpasu 2,000 o filltiroedd sgwâr, sef rhyw chwarter arwynebedd Cymru. Gydag ond un unigolyn ym mhob 10 erw (pedwar hectar), mae'n un o'r ardaloedd awdurdod lleol mwyaf tenau ei phoblogaeth yng Nghymru a Lloegr. Mae'r economi'n seiliedig ar amaethyddiaeth a thwristiaeth. Mae lefel uchel o hunangyflogaeth, a busnesau bach sydd yno'n bennaf. Mae'r sector cyhoeddus yn gwneud cyfraniad pwysig at gyfleoedd cyflogaeth yn y sir.

2 Roedd 1,069 o bobl yn ddi-waith ac yn hawlio budd-daliadau diweithdra ym Mhowys ym mis Tachwedd 2007, sef cyfwerth ag 1.4% o'r gweithlu preswyl amcangyfrifedig, yn ôl data a ryddhawyd ym mis Rhagfyr 2007 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. O gymharu â'r DU gyfan, mae gan Bowys gyfran uwch o'r grŵp oed gweithio hŷn a'r grŵp oed ymddeol. Cyfartaledd oed poblogaeth Powys yn 2006 oedd 43 o gymharu â 41 yng Nghymru a 39 yng Nghymru a Lloegr. Mae gan 30% o drigolion Powys rywfaint o wybodaeth am y Gymraeg o gymharu â ffigur Cymru gyfan, sef 28%, ac mae'r rhain yng ngogledd orllewin a de orllewin y sir yn bennaf.

### Natur y darparwyr

3 Darperir y rhaglen addysg oedolion gan bartneriaeth o ddarparwyr ac fe'i cyflenwir mewn 15 o brif ganolfannau ym Mhowys; y Drenewydd, y Trallwng, Llanfair Caereinion, Llanfyllin, Llanidloes, Machynlleth, Llandrindod, Llanandras, Trefyclo, Y Gelli Gandryll, Rhaeadr Gwy, Aberhonddu, Llanfair-ym-Muallt, Crucywel ac Ystradgynlais. Mae'r canolfannau hyn yn eu tro wedyn yn darparu dosbarthiadau mewn trefi a phentrefi cyfagos. Mae'r lleoliadau ar gyfer y rhan fwyaf o'r cyrsiau hyn yn cynnwys safleoedd Coleg Powys, ysgolion uwchradd lleol neu ganolfannau cymuned.

4 Prif ddarparwyr dysgu oedolion yn y gymuned a ariennir gan APADGOS ym Mhowys yw:

- Coleg Powys
- Cyngor Sir Powys
- Prifysgol Aberystwyth
- Coleg Harlech/Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Gogledd (CAGCH)
- Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (De) (CAG(De))
- Coleg Cymunedol YMCA Cymru
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys

5 Mae'r darparwyr hyn yn aelodau o Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Powys (y bartneriaeth) a sefydlwyd ym 1993, a ehangwyd yn 2006 ac a ehangwyd ymhellach yn 2007. Mae'r bartneriaeth bellach yn gweithredu fel y grŵp strategol ar gyfer dwyn datblygiadau yn eu blaen mewn Dysgu Oedolion yn y Gymuned ym Mhowys.

6 Yn 2006-2007 darparodd Coleg Powys 56% o'r holl weithgareddau dysgu oedolion yn y gymuned yn y sir. Roedd hyn yn gynnydd o 2005-2006 o 21 pwynt canran. Cyflwynodd y Cyngor 19% o ddysgu oedolion yn y gymuned yn 2006-2007. Roedd hwn yn ostyngiad o 14 pwynt canran o'r flwyddyn flaenorol. Yn ystod 2006-2007, newidiodd darparwyr nifer ac amrywiaeth eu dosbarthiadau, a hyn a gyfrannodd at yr amrywiadau hyn yn y lefelau gweithgaredd. Ym mis Medi 2007, trosglwyddodd y Cyngor y ddarpariaeth anachrededig Dysgu Oedolion yn y Gymuned a gyflwynodd yn flaenorol i Goleg Powys. Gwnaeth y Cyngor hyn ar sail dros dro trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth. Mae'r Cyngor yn gyfrifol o hyd am reoli'r ddarpariaeth hon. Mae'r coleg yn cyflwyno dosbarthiadau ASO, SSIE, Dysgu Oedolion a Datblygiad Cymunedol.

7 O ganlyniad i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ail-gyflunio'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion ar draws Cymru, dyfarnwyd contract yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) i Ganolfan Cymraeg i Oedolion y Canolbarth (CCOC) i gyflwyno Cymraeg i Oedolion ym Mhowys. Mae'r ganolfan yn cael ei rheoli gan Brifysgol Aberystwyth, sy'n gweinyddu cyllid Cymraeg i Oedolion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae CCOC yn darparu bron yr holl gyrsiau Cymraeg i Oedolion yn uniongyrchol ym Mhowys, ac mae'n is-gontractio darpariaeth fach Cymraeg i Oedolion i CAGCH, o fewn y bartneriaeth yn ogystal. Ym mis Medi 2007, roedd rhyw 15% yn fwy o ddysgwyr nag yn y flwyddyn flaenorol wedi cofrestru gyda CCOC.

8 Yn 2006-2007 cyflwynodd CAGCH 10% o'r dysgu oedolion yn y Sir, a oedd yn cynnwys ASO ac SSIE, Dysgu Oedolion a Datblygiad Cymunedol. Yn yr un flwyddyn fe wnaeth CAG (De) a'r YMCA gyda'i gilydd gyflwyno 12% o'r dysgu oedolion.

9 Mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO) yn Gyngor Gwirfoddol Sirol. Mae'n cael cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi addysg a hyfforddiant ar gyfer mudiadau'r sector gwirfoddol.

10 Yn ystod yr arolygiad roedd rhyw 240 o ddosbarthiadau dysgu oedolion yn y gymuned yn cael eu cynnig gan y darparwyr.

**Meysydd dysgu**

11 Fe wnaethom arolygu darpariaeth yn y meysydd dysgu canlynol:

- Addysg Sylfaenol Oedolion (ASO) a Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE);
- Cymraeg i Oedolion;
- Dysgu Oedolion; a
- Datblygiad Cymunedol.

| Darparwr | ASO | SSIE | Cymraeg i Oedolion | Dysgu Oedolion | Datblygiad Cymunedol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Prifysgol Aberystwyth** | | | ✓ | | |
| **CAG Coleg Harlech** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Coleg Powys** | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ |
| **PAVO** | | | | | ✓ |
| **CAG y De** | | | | ✓ | ✓ |
| **YMCA** | | | | | ✓ |

## Crynodeb

### Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

12 Barnodd y tîm arolygu waith y darparwyr fel a ganlyn:

| Cwestiwn Allweddol | Gradd arolygu |
|---|---|
| 1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? | 3 |
| 2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? | 3 |
| 3 Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? | 3 |
| 4 Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? | 3 |
| 5 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol? | 3 |
| 6 Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? | 3 |
| 7 Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? | 3 |

### Crynodeb o raddau cyffredinol yn ôl meysydd dysgu

| Maes dysgu a arolygwyd | Gradd arolygu |
|---|---|
| ASO/SSIE | 3 |
| Cymraeg i Oedolion | 3 |
| Dysgu Oedolion | 2 |
| Datblygiad Cymunedol | 2 |

### Safonau

13 Mae cyfraddau cyrhaeddiad yn amrywio gormod ar draws y ddarpariaeth. Mae presenoldeb yn y dosbarthiadau yn dda yn gyffredinol, ac ar gyfartaledd o 77%, mae uwchlaw hynny a welwyd ar arolygiadau tebyg.

14 Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da ac yn symud ymlaen i'r cyfnod dysgu nesaf. Maent yn defnyddio'r medrau y maent yn eu dysgu yn y dosbarth yn dda yn eu bywydau bob dydd. Mae bron yr holl ddysgwyr wedi'u cymell yn dda ac yn gweithio'n dda â'i gilydd yn eu dosbarthiadau. Maent yn helpu'i gilydd i ddysgu ac yn ffurfio perthynas dda â'u tiwtoriaid. Mae'r dysgwyr hŷn a'r rheiny o gymunedau anghysbell yn defnyddio'u dysgu yn dda i ffurfio rhwydweithiau cymdeithasol i ffwrdd o'r ystafell ddosbarth.

### Ansawdd addysg a hyfforddiant

15 Mae ansawdd yr addysgu a'r asesu yn foddhaol o leiaf ar draws y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth. Mae bron yr holl diwtoriaid yn sefydlu perthynas effeithiol gyda'u dysgwyr ac yn datblygu medrau personol a chymdeithasol eu dysgwyr yn dda. Mae

llawer o'r tiwtoriaid yn dangos gwybodaeth dda am eu pwnc a medrau addysgu da. Fodd bynnag, mewn traean o'r sesiynau a arsylwyd, nid yw'r tiwtoriaid yn defnyddio amrywiaeth ddigon eang o strategaethau addysgu i ysgogi a herio'r dysgwyr. Nid yw lleiafrif o'r tiwtoriaid yn gwneud y defnydd gorau o Gynlluniau Dysgu Unigol (CDUau) na chofnodion o asesiadau.

16 Mae dosbarthiad daearyddol da o gyrsiau i ddiwallu anghenion ardal wledig. Mae llawer o gyrsiau'n llwyddo i ddenu dysgwyr yn ôl i ddysgu, yn enwedig mewn ardaloedd dan anfantais. Mae ymateb da i anghenion cyflogwyr.

17 Nid oes digon o gyfleoedd dysgu ar draws y bartneriaeth ar gyfer dysgwyr ASO ac SSIE. Mewn Dysgu Oedolion, Datblygiad Cymunedol ac SSIE, nid oes digon o gyfleoedd i ddysgwyr symud ymlaen i lefelau uwch. Nid oes digon o gyfleoedd ar gyfer dysgu dwyieithog neu ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

18 Mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad i ddysgwyr ym Mhowys yn dda yn gyffredinol. Fodd bynnag, nid yw ar gael i bob dysgwr eto. Mae pob un o'r darparwyr yn cynnig amrywiaeth gynhwysfawr o wybodaeth gan ddefnyddio llyfrynnau, taflenni a gwefannau. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn cwblhau rhyw ffurf o asesiad cychwynnol, ac mewn rhai achosion, yn cael profion diagnostig a phrofion ar gyfer anghenion arbennig. Mae proses sefydlu o safon dda ar gyfer mwyafrif y dysgwyr. Mae darpariaeth gofal plant ar gael, a gall dysgwyr gael cymorth ariannol drwy gynlluniau cymorth y darparwyr neu gronfeydd caledi. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn gwybod sut i wneud cwyn.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

19 Mae gan y bartneriaeth weledigaeth glir ar gyfer DOG ym Mhowys. Mae ei chylch gorchwyl yn cynnwys nodau clir y mae'r bartneriaeth yn eu cydweddu'n llwyddiannus â blaenoriaethau dysgu a medrau cenedlaethol ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n cyfrannu'n dda at yr agenda cynhwysiad cymdeithasol trwy weithgareddau datblygiad cymunedol. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth yn gwireddu potensial llawn y gweithgareddau hyn yn ddigon da. Nid oes ganddi drosolwg strategol eto o ymgysylltiad cymunedol ac adeiladu gallu cymunedol ym Mhowys.

20 Mae'r bartneriaeth ar gyfnod cynnar o ran datblygu ond mae eisoes yn gwella cydweithio. Mae partneriaid yn gweithio'n dda â'i gilydd i gytuno nodau strategol cyffredin. Un o'r rhain yw gwella ansawdd darpariaeth yn y Sir. Mae'r bartneriaeth wedi sefydlu gweithdrefnau sicrhau ansawdd da, gan gynnwys Cynllun Datblygu Ansawdd (CDA). Fodd bynnag, nid yw'r cynllun hwn yn cynnwys camau gweithredu clir, graddol wedi'u cyfyngu gan amser, sy'n ei wneud yn anodd i'r bartneriaeth i fonitro cynnydd yn ddigon manwl. Hefyd, nid yw pob un o'r partneriaid yn deall effaith y system ansawdd. Nid ydynt yn monitro'r dangosyddion perfformiad y maent yn eu cytuno yn eu cytundebau lefel gwasanaeth yn ffurfiol. Yn ddiweddar, mae'r bartneriaeth wedi dechrau casglu a rhannu data defnyddiol i helpu dadansoddi a monitro'i pherfformiad. Fodd bynnag, nid yw'n gwneud defnydd effeithiol o ddata bob amser i osod targedau ar gyfer gwella.

21 Mae gan ddarparwyr unigol weithdrefnau da ar waith i wella ansawdd, er nad yw cynlluniau gweithredu ychydig ohonynt yn ddigon manwl. Mae trefniadau ar waith

gan yr holl ddarparwyr i arsylwi tiwtoriaid yn y dosbarth. Mae effeithiolrwydd y system arsylwi yn amrywiol ar draws y bartneriaeth. Mewn ychydig o achosion nid yw'r adborth yn nodi'n ddigon da beth mae angen i diwtoriaid ei wneud i wella'u haddysgu.

22 Mae'r bartneriaeth yn gwella'r ffordd y mae'n defnyddio adnoddau. Mae cymwysterau priodol gan lawer o'r staff ac mae cyfleoedd datblygu staff da ar gael i diwtoriaid ar draws y bartneriaeth. Mae'n gwneud defnydd da o TGCh i rannu adnoddau gyda'r staff a dysgwyr trwy wefan e.powys.net.

23 Mae'r adolygiad diweddar o ddysgu oedolion wedi arwain at gynnydd yn nifer y darparwyr sy'n cefnogi cynllunio gweithgareddau partneriaeth. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth wedi nodi'r holl adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr bod dysgwyr dysgu oedolion yn y gymuned yn cael y cyfleoedd gorau. Nid oes awdurdod digonol gan aelodau grŵp rheoli'r bartneriaeth bob amser i wneud penderfyniadau rheoli strategol sy'n arwain at welliannau ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned ym Mhowys.

**Safonau a gyflawnir gan ddysgwyr yn y meysydd dysgu a arolygwyd**

24 Mae tueddiadau sy'n gwella mewn perfformiad dros y tair blynedd diwethaf ar gyfer dysgwyr ASO ac SSIE. Mae cyrhaeddiad da gan lawer o ddysgwyr mewn dosbarthiadau ASO. Maent yn gwneud cynnydd da ac yn symud ymlaen i'r cyfnod dysgu nesaf. Nid yw lleiafrif o'r dysgwyr SSIE yn aros ar gyrsiau'n ddigon hir i sefyll arholiad. Mae bron yr holl ddysgwyr yn gwella'u medrau dysgu annibynnol ac yn ennill hyder a hunan-barch. Maent yn gweithio'n dda ac yn gefnogol gyda'i gilydd.

25 Mae cyfraddau cadw gwael mewn ASO ac SSIE. Nid yw lleiafrif o ddysgwyr SSIE yn cyflawni nac yn gwneud cynnydd digon da. Nid yw pob un o'r dysgwyr SSIE yn deall beth mae'n rhaid iddynt ei wneud i wella. Ar gyfer ychydig o ddysgwyr SSIE, mae presenoldeb gwael yn cael effaith negyddol ar ddilyniant. Mewn lleiafrif o achosion, mae lefelau amrywiol gallu o fewn dosbarthiadau SSIE yn rhwystro cynnydd yn ormodol.

26 Mewn **Cymraeg i Oedolion**, mae'r cyfraddau presenoldeb a'r cyfraddau cwblhau yn dda yn gyffredinol. Mae'r dysgwyr yn cael eu cymell ac maent yn ymwybodol o fanteision dysgu Cymraeg. Mae niferoedd cofrestru a niferoedd cyrhaeddiad wedi cynyddu er 2005-2006. Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu medrau siarad a gwrando da, maent yn gallu darllen testunau a chwblhau tasgau ysgrifenedig sy'n briodol i'w lefel. Mae ychydig o ddysgwyr yn ymarfer eu hiaith yn y gymuned.

27 Nid yw ychydig o ddysgwyr yn gwneud cynnydd priodol ac maent yn defnyddio gormod o Saesneg mewn dosbarthiadau. Nid yw lleiafrif yn datblygu'n ddigon da fel dysgwyr annibynnol. Nid yw bron i hanner y dysgwyr yn deall sut i wella'u dysgu.

28 Mae cyfraddau cwblhau dysgwyr ar gyrsiau **Dysgu Oedolion** achrededig ac anachrededig yn dda yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r cyfraddau cyrhaeddiad ar gyrsiau achrededig yn amrywio gormod. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Maent yn datblygu medrau da mewn cyfathrebu, datrys problemau a gweithio gyda phobl eraill. Mewn ychydig o achosion, nid yw'r dysgwyr yn talu digon o sylw i ramadeg a sillafu mewn gwaith ysgrifenedig. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mynychu dosbarthiadau'n rheolaidd.

29 Mae'r dysgwyr wedi'u cymell yn dda. Fodd bynnag, mewn ychydig o ddosbarthiadau, nid yw'r dysgwyr yn cyfrannu digon at drafodaethau dosbarth. Mae llawer o ddysgwyr o bob oed yn cynyddu'u medrau a'u rhagolygon cyflogaeth trwy fynychu dosbarthiadau dysgu oedolion.

30 Mewn cyrsiau **Datblygiad Cymunedol,** mae'r cyfraddau cofrestru, cwblhau a chyrhaeddiad yn dda, ac maent wedi gwella er 2005-2006. Mae llawer o ddysgwyr yn ymgysylltu'n dda â'u tiwtor a'u cymheiriaid, ac maent yn gweithio'n effeithiol â'i gilydd i gynorthwyo a gwella'r dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyflawni safonau da neu dda iawn ac yn gwneud cynnydd da. Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud defnydd da o'u medrau a'u gwybodaeth yn eu bywydau bob dydd. Hefyd, mae llawer o'r dysgwyr mwy agored i niwed yn gwella'u hunanhyder a'u medrau cymdeithasol er gwaetha'r ffaith eu bod yn dechrau o drothwy hyder isel. At ei gilydd, mae cyfraddau presenoldeb da mewn dosbarthiadau datblygiad cymunedol.

## Argymhellion

31 Er mwyn gwella, mae angen i'r bartneriaeth:

A1 wella rheolaeth strategol yr holl adnoddau sydd ar gael ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned;

A2 gwella casglu a dadansoddi data i gyfrannu at gynlluniau'r bartneriaeth;

A3 sicrhau bod Cyngor Sir Powys yn monitro ei ddarpariaeth rhyddfraint gyda Choleg Powys yn ffurfiol;

A4 cytuno ar a gweithredu dull strategol o gynorthwyo ymgysylltiad cymunedol ac adeiladu gallu cymunedol;

A5 sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael i ddysgwyr a bod y niferoedd sy'n manteisio arno yn cael eu monitro'n effeithiol;

A6 codi safon cynllunio sesiynau i sicrhau bod strategaethau addysgu a gweithgareddau dysgu yn amrywiol, bod cyflymder da iddynt, eu bod yn cynnig her a'u bod yn cyfateb yn dda i alluoedd gwahanol dysgwyr;

A7 cynyddu nifer y cyfleoedd dysgu yn ASO ac SSIE;

A8 sicrhau bod yr holl ddysgwyr SSIE yn cael canlyniadau priodol a'u bod yn gwneud cynnydd; a

A9 sicrhau bod dysgwyr Cymraeg i Oedolion yn defnyddio'r Gymraeg fel yr iaith darged mewn gwersi a chynnig cyfleoedd i ddysgwyr siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth.

## Safonau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

**Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

32 At ei gilydd, mae safonau cyflawniad dysgwyr yn y sesiynau a arolygwyd fel a ganlyn:

| Safonau cyflawniad dysgwyr | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gradd 1** | **Gradd 2** | **Gradd 3** | **Gradd 4** | **Gradd 5** |
| 9% | 61% | 28% | 2% | 0% |

33 Mae'r safonau a gyflawnir ym mhob un o'r meysydd dysgu a arolygwyd fel a ganlyn:

| Maes dysgu a arolygwyd | Gradd arolygu |
|---|---|
| ASO/SSIE | 3 |
| Cymraeg i Oedolion | 3 |
| Dysgu Oedolion | 2 |
| Datblygiad Cymunedol | 2 |

**Llwyddiant wrth gyrraedd nodau dysgu cytûn**

34 Mae cyfraddau cyrhaeddiad yn amrywio gormod ar draws y meysydd dysgu. Mewn Datblygiad Cymunedol ac ASO, maent yn dda ac yn gwella. Mewn Datblygiad Cymunedol, er enghraifft, fe wnaeth cyfraddau cyrhaeddiad rhwng 2005-2006 a 2006-2007 godi o 77% i 84%. Mae cyfraddau cyrhaeddiad mewn Cymraeg i Oedolion yn gwella hefyd. Mewn dosbarthiadau Dysgu Oedolion achrededig, mae'r cyrhaeddiad yn amrywio gormod, ac mewn SSIE, mae lleiafrif o ddysgwyr yn gadael y dosbarth cyn y gallant sefyll arholiad.

35 Mewn Cymraeg i Oedolion a Dysgu Oedolion, mae'r cyfraddau cwblhau yn dda. Mewn Cymraeg i Oedolion, er enghraifft, 84% oedd y cyfraddau cwblhau yn 2006-2007, sydd uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol, sef 81%. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau ASO ac SSIE, mae'r cyfraddau cwblhau yn wael, ar 74%.

**Cynnydd wrth ddysgu**

36 Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da ac yn symud ymlaen i'r cyfnodau dysgu nesaf. Mewn Cymraeg i Oedolion, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu medrau siarad a gwrando da, maent yn gallu darllen testunau yn Gymraeg a chwblhau tasgau ysgrifenedig sy'n briodol i'w lefel. Mae ychydig o ddysgwyr yn ymarfer eu hiaith yn y gymuned. Nid yw ychydig o ddysgwyr yn gwneud cynnydd digon da ac yn defnyddio gormod o Saesneg yn y dosbarth. Mae hyn yn arafu'r cynnydd maent yn ei wneud wrth ddatblygu'u medrau siarad yn Gymraeg. Nid yw ychydig o ddysgwyr SSIE yn mynychu'n ddigon da i wneud cynnydd da, ac mewn lleiafrif o achosion, mae'r amrywiaeth eang o lefelau gallu o fewn yr un dosbarth SSIE yn rhwystro cynnydd yn ormodol.

37 Mewn Dysgu Oedolion, mae'r dysgwyr yn datblygu medrau da mewn cyfathrebu, datrys problemau a gweithio gyda phobl eraill. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddysgwyr sy'n dilyn cyrsiau mynediad i addysg uwch yn talu digon o sylw i ramadeg a sillafu yn eu gwaith ysgrifenedig.

38 Mewn Datblygiad Cymunedol, mae dysgwyr ar gyrsiau TG yn datblygu medrau lefel uwch ac yn symud ymlaen o dasgau syml i ddefnyddio cyhoeddi pen desg a gweithio gyda thaenlenni. Mae bron yr holl ddysgwyr mewn dosbarthiadau ASO yn narpariaeth Coleg Powys yn 2006-2007 yn symud ymlaen i lefel astudio uwch.

**Datblygiad medrau personol, cymdeithasol a dysgu**

39 Mae bron yr holl ddysgwyr wedi'u cymell yn dda ac yn gweithio'n dda â'i gilydd yn eu dosbarthiadau. Maent yn helpu'i gilydd i ddysgu ac yn ffurfio perthynas dda â'u tiwtoriaid.

40 Mae llawer o ddysgwyr yn magu hyder wrth fynychu'r dosbarthiadau hyn, ac yn gwella'u medrau cymdeithasol. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer dysgwyr mwy agored i niwed a all fod yn cychwyn o drothwy hyder isel. Mae ychydig o ddysgwyr ASO yn dod o hyd i gyflogaeth ar ôl datblygu medrau newydd.

41 Mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio'r medrau y maent yn eu dysgu yn y dosbarth yn dda yn eu bywydau bob dydd. Er enghraifft, mewn Dysgu Oedolion, mae dysgwyr mewn cymunedau ffermio gwledig wedi datblygu cyfleoedd busnes newydd ar ôl gwella'u medrau TG. Mewn Datblygiad Cymunedol, mae dysgwyr yn cymhwyso agweddau ar y medrau rheoli fferm y maent yn eu dysgu i weithgareddau busnes eraill.

42 Mewn Cymraeg i Oedolion, mae dysgwyr yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain ac yn mynychu digwyddiadau ychwanegol yn y gymuned. Mewn ychydig o achosion, mae aelodau dosbarthiadau Dysgu Oedolion sy'n byw mewn cymunedau anghysbell yn cynnal eu cysylltiadau y tu allan i'r dosbarth hefyd drwy ffurfio rhwydweithiau cymdeithasol. Hefyd, mae dysgwyr hŷn yn y dosbarthiadau hyn yn defnyddio'u cyfleoedd dysgu'n dda i aros yn weithgar yn eu cymunedau.

43 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ym Mhowys yn mynychu'u dosbarthiadau'n rheolaidd. Y ffigur presenoldeb cyffredinol yn ystod yr arolygiad oedd 77%; mae hyn uwchlaw'r cyfartaledd a welwyd ar arolygidau DOG eraill yn y cylch hwn. Mae'r eithriad i hyn yn SSIE, lle mae'r cyfraddau presenoldeb yn wael.

## Ansawdd addysg a hyfforddiant

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?**

**Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

| Ansawdd yr addysgu yn y meysydd dysgu a arolygwyd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gradd 1** | **Gradd 2** | **Gradd 3** | **Gradd 4** | **Gradd 5** |
| 4% | 62% | 26% | 6% | 2% |

44 Mae'r addysg a'r asesu yn y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth DOG ym Mhowys yn foddhaol o leiaf.

45 Mae llawer o diwtoriaid yn dangos gwybodaeth dda am eu pwnc ac mae ganddynt fedrau addysgu effeithiol. Maent yn cynllunio'u sesiynau yn dda, ac yn yr achosion gorau, maent yn cynnwys dysgwyr wrth gynllunio'r rhaglen ddysgu. Maent yn cyfleu'r nodau ac amcanion dysgu yn glir fel bod y dysgwyr yn deall beth maent yn mynd i'w ddysgu. O ganlyniad, mae dysgwyr yn cymryd perchenogaeth o'u dysgu, ac yn cynnal diddordeb yn eu dysgu.

46 Mae bron yr holl diwtoriaid yn sefydlu perthynas weithio effeithiol gyda'u dysgwyr. Maent yn helpu dysgwyr i deimlo'n hyderus amdanynt eu hunain a'u dysgu. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae tiwtoriaid yn datblygu medrau personol a chymdeithasol eu dysgwyr yn dda, fel bod dysgwyr yn rhannu syniadau ac adnoddau ac yn cynorthwyo'i gilydd i gyflawni'u nodau dysgu.

47 Mae disgwyliadau uchel gan fwyafrif y tiwtoriaid am eu dysgwyr, ac maent yn eu herio'n effeithiol. Mae hyn yn tynnu'r gorau allan o'r dysgwyr. Ym mwyafrif y sesiynau, mae tiwtoriaid yn amrywio'r cyflymder yn dda i ddiwallu anghenion dysgwyr ac i gynnal eu brwdfrydedd am eu dysgu.

48 Serch hynny, nid yw lleiafrif o diwtoriaid yn cynnwys digon o weithgareddau sy'n amrywio cyflymder sesiynau, na gweithgareddau sy'n dal diddordeb ac yn herio'r dysgwyr. Yn rhy aml, maent yn arwain trafodaethau eu hunain ac yn dibynnu'n rhy drwm ar daflenni gwaith. Yn y sesiynau hyn, nid yw tiwtoriaid yn cynnig digon o gyfleoedd i ddysgwyr weithio gyda'i gilydd i ddatrys problemau ac i fyfyrio ar yr hyn maent yn ei ddysgu.

49 Yn y rhan fwyaf o sesiynau, nid yw tiwtoriaid yn defnyddio TGCh i gynorthwyo ac ymestyn y dysgu. Nid yw tiwtoriaid yn dangos yn ddigonol y modd y gall technoleg cyfrifiadur wneud dysgu'n fwy diddorol a hygyrch. Mewn ychydig o achosion, mae ansawdd taflenni'n wael. Mewn dosbarthiadau lefelau cymysg, yn enwedig mewn SSIE a Chymraeg i Oedolion, nid yw tiwtoriaid yn rheoli'r sesiynau'n ddigon da. Nid ydynt yn addasu gwaith i ddiwallu anghenion a galluoedd unigol y dysgwyr.

50 Yn ystod y sesiynau, mae llawer o diwtoriaid yn cynnal asesiadau rheolaidd, anffurfiol ac yn monitro cynnydd dysgwyr ar sail un i un yn effeithiol iawn. Fodd bynnag, ar draws yr holl feysydd dysgu, mae defnydd tiwtoriaid o CDUau a chofnodion o asesiadau yn amrywio gormod.

51 Nid yw lleiafrif o diwtoriaid yn gwneud y defnydd gorau o CDUau a/neu gofnodion o asesiadau i fonitro cyflawniadau cyfredol dysgwyr. O ganlyniad, nid oes gan ddysgwyr ddealltwriaeth glir bob amser o'r hyn maent yn ei wneud yn dda a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

52 Mae llawer o gyrsiau yn llwyddo i ddiwallu anghenion dysgwyr a chymunedau lleol. Mae dysgwyr yn cynyddu'u medrau ar gyfer cyflogaeth, yn datblygu medrau personol ac yn cyfrannu at y gymuned. Er enghraifft, mae dysgwyr yn datblygu medrau sy'n eu helpu i gadw mewn cysylltiad â'u plant a'u hwyrion a hwyresau drwy'r e-bost neu we-gam. Mae ffermwyr yn defnyddio medrau TG ar gyfer datblygiad personol ac i'w galluogi i arallgyfeirio'u busnesau. Mae cleientiaid prawf sy'n peintio adeilad cymunedol fel rhan o'u gorchymyn troseddu, yn dod yn fwy cysylltiedig ag agweddau ar fywyd cymunedol.

53 Mae amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu oedolion a dysgu cymunedol achrededig ac anachrededig i ddiwallu anghenion cymunedau gwledig. Mae dosbarthiad da o ddarpariaeth ar hyd y sir. Yn y rhan fwyaf o achosion mae hyn yn digwydd mewn lleoliadau addas, canolog, ac mewn ardaloedd lle mae eu hangen fwyaf. Mae darparwyr yn gwneud defnydd da o neuaddau pentref, fel nad oes rhaid i ddysgwyr deithio'n rhy bell i fynychu. Mae'r bartneriaeth yn cynnig dosbarthiadau dydd a nos, ac mae ychydig o ddosbarthiadau Sadwrn ar gyfer Cymraeg sgyrsiol ac ar gyfer SSIE sy'n diwallu anghenion dysgwyr sy'n gweithio'n amser llawn yn dda. Mae cyfleoedd da i ddysgwyr Cymraeg ym Mhowys gan fod dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion, ar bob lefel, ar gael ar hyd y sir. Mae cyrsiau TGCh yn gynnar gyda'r nos yn effeithiol o ran denu dysgwyr sydd wedi bod yn y gwaith yn ystod y dydd.

54 Mae darpariaeth effeithiol, wedi'i thargedu, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd gwledig. Mae darparwyr yn llwyddo i ddenu dysgwyr yn ôl i ddysgu. Mewn Datblygiad Cymunedol, mae grwpiau lleol mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, yn recriwtio rhieni ifanc ar gyrsiau TG byr. Mae ychydig o'r dysgwyr hyn yn symud ymlaen i gyrsiau eraill fel ASO, cwnsela ac iechyd a gofal cymdeithasol. Mae llawer o ddysgwyr yn mynychu cyrsiau byr, yn enwedig mewn TGCh. Mae'r math hwn o ddarpariaeth yn ddeniadol i'r rheiny sy'n mynd yn ôl i ddysgu.

55 Mae partneriaid DOG Powys yn gweithio'n dda â'i gilydd, ar lefel weithredol, i archwilio a chynllunio'r cwricwlwm. Yn Ystradgynlais, maent yn effeithiol wrth rannu adnoddau ac mae hyn yn lleihau cystadleuaeth. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol a MIND yn gweithio'n dda gyda'r bartneriaeth i gyfeirio oedolion sydd â materion iechyd meddwl neu anableddau dysgu i ddosbarthiadau, ac i sefydlu cyfleoedd dysgu perthnasol.

56 Mae ychydig o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymestyn ac yn cyfoethogi'u dysgu. Mae dysgwyr gwaith llaw yn cael mwy o syniadau am eu maes pwnc ar ôl ymweld â'r Ganolfan Arddangos Genedlaethol. Mae dysgwyr Cymraeg i Oedolion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau wedi'u trefnu'n lleol. Mae Mentrau Iaith a CCOC yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer eu medrau llafar ac i integreiddio i'w cymuned leol.

57 Mae darparwyr yn ymateb yn dda i anghenion cyflogwyr lleol. Mae staff Coleg Powys wedi ymgynghori'n eang â chyflogwyr ac mae nifer wedi llofnodi'r cynllun Adduned Cyflogwr sy'n cefnogi cyflogeion i wella'u medrau sylfaenol. Mae un ffatri arlwyo sydd â 100% o'i gweithlu'n fewnfudwyr, yn cynnig dosbarth lle mae'r gweithwyr yn dysgu darllen ryseitiau. Mae hyn yn helpu'r dysgwyr hyn i weithio'n fwy effeithlon. Mae Coleg Powys a CAG Coleg Harlech yn codi ymwybyddiaeth am fedrau sylfaenol gydol y ddarpariaeth trwy hyfforddi staff a thiwtoriaid cymunedol. Mae hyn yn golygu y gall staff gyfeirio dysgwyr i ddosbarthiadau'n fwy effeithiol.

58 Mae darparwyr yn hyrwyddo materion cynaliadwyedd yn dda. Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, mae dysgwyr yn cyflawni prosiectau ar gynaliadwyedd a materion amgylcheddol. Yn dilyn un prosiect mewn dosbarth ASO, mae dysgwyr wedi dod yn hyrwyddwr cynaliadwyedd yn ei gweithle. Mewn dosbarthu Mynediad i Addysg Uwch, mae dysgwyr yn weithgar yn hyrwyddo materion cynaladwyedd. Mae ychydig o ddysgwyr yn rhannu cludiant i fynychu dosbarthiadau. Mae gan Goleg Powys raglen ailgylchu eang, ac mae dysgwyr mewn dosbarthiadau blodeuwriaeth a chelf a chrefft yn ailgylchu deunyddiau.

59 Nid oes digon o gyfleoedd dysgu ar gyfer dysgwyr ASO ac SSIE ar draws y bartneriaeth. Ar gyfer yr ychydig o ddysgwyr SSIE sydd ag anghenion llythrennedd yn eu mamiaith neu sydd wedi cael addysg gyfyngedig yn eu mamwlad, mae'r diffyg dosbarthiadau yn cael effaith hyd yn oed yn fwy ar eu gallu i wneud cynnydd. Mae mynediad gwael mewn rhai ardaloedd anghysbell. Mewn ychydig o ddosbarthiadau SSIE, cyfleoedd cyfyngedig sydd i ddysgwyr ennill tystysgrif. Dim ond un dosbarth yr wythnos y mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr SSIE yn ei fynychu, ac nid yw hyn yn rhoi digon o amser iddynt gyfnerthu'u dysgu.

60 Mewn dysgu oedolion, SSIE a datblygiad cymunedol, cyfleoedd cyfyngedig y mae dysgwyr yn eu cael i symud ymlaen i lefel uwch. Mewn ychydig o ddosbarthiadau SSIE, mae lefel gallu eang iawn yn yr un dosbarth. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae llawer o ddysgwyr yn symud ymlaen i bynciau eraill, er ar lefel debyg, drwy ymuno â dosbarthiadau eraill yn y ganolfan y maent yn ei mynychu. Mae'r defnydd o gyfryngau TGCh fel fideo-gynadledda i hyrwyddo dysgu o bell yn rhy gyfyngedig.

61 Nid oes digon o gyfleoedd i ddysgwyr wella'u medrau dwyieithog nac i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn datblygiad cymunedol a dysgu oedolion, ychydig o ddefnydd achlysurol sydd o'r Gymraeg. Mewn dosbarthiadau ASO ac SSIE, nid oes digon o gyfeiriad at hanes a diwylliant Cymru.

## Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

**Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

62 Mae ansawdd y gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr ym Mhowys yn dda; fodd bynnag, nid yw ar gael eto i bob dysgwyr ar hyd y sir.

63 Mae staff cymwys yn cynnig cyngor ac arweiniad da ac mae llawer o diwtoriaid yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth i'w helpu i gyfeirio dysgwyr at wasanaethau cynghori a chwnsela priodol. Mae darparwyr yn defnyddio cysylltiadau sefydledig gydag asiantaethau arbenigol, fel Gyrfa Cymru, i gynghori ar gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant ychwanegol sydd ar gael i ddysgwyr.

64 Mae'r holl ddarparwyr yn defnyddio llyfrynnau, taflenni a gwefannau i gynnig amrywiaeth gynhwysfawr o wybodaeth. Fodd bynnag, nid yw darparwyr bob amser yn targedu gwybodaeth yn ddigon effeithiol at ddysgwyr anodd eu cyrraedd. Maent yn defnyddio amrywiaeth o ddigwyddiadau a lleoliadau yn llwyddiannus ar hyd y sir i hyrwyddo dosbarthiadau. Er hyn, mae ychydig o ddysgwyr yn ei chael hi'n anodd cael gwybodaeth am gyrsiau, ac nid yw rhai ffynonellau gwybodaeth yn ddigon manwl nac yn ddigon clir.

65 Mae darparwyr yn monitro presenoldeb dysgwyr yn effeithiol. Mae llawer o diwtoriaid yn mynd ar drywydd absenoldebau gyda galwadau ffôn neu e-byst. Maent yn gwneud hyn at ddibenion monitro, ond maent hefyd yn gwirio lles y dysgwyr. Mae tiwtoriaid mewn llawer o ddosbarthiadau yn trefnu i ddysgwyr eraill gasglu gwaith ar ran y rheiny sy'n absennol. Mae ychydig o diwtoriaid yn anfon aseiniadau at eu dysgwyr dros yr e-bost.

66 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cael asesiad cychwynnol o'u hanghenion dysgu. Mewn ychydig o achosion maent yn cael asesiad diagnostig llawn ac yn cael eu sgrinio ar gyfer dyslecsia. Mae dysgwyr SSIE ac ASO yn ymgymryd ag asesiadau manwl o fedrau sylfaenol. Mae tiwtoriaid yn cynnig cymorth da pan fydd dysgwyr eu hunain yn nodi anghenion penodol. Nid yw nifer fach iawn o diwtoriaid yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i gael cymorth i ddysgwyr â dyslecsia.

67 Mae tiwtoriaid yn darparu proses sefydlu dda i'r mwyafrif o ddysgwyr. Mae hyn yn ymdrin ag iechyd a diogelwch, gwagio adeilad pan fydd tân, cydraddoldeb ac amrywiaeth, safonau ymddygiad a hawliau a chyfrifoldebau. Mae'r broses sefydlu yn sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cyflwyno'n esmwyth i ddysgu.

68 Mae mwyafrif y tiwtoriaid yn gwneud defnydd da o Gynlluniau Dysgu Unigol i gofnodi gofynion cymorth ychwanegol dysgwyr ac i fonitro'u cynnydd. Nid yw tiwtoriaid mewn ychydig o ddosbarthiadau yn deall yn ddigon da pa mor bwysig yw hi i ddiwallu anghenion cymorth dysgwyr os ydynt i lwyddo ar eu cwrs. Mewn ASO ac SSIE, mae gweithwyr cymorth dysgu cymwys yn gweithio'n dda ochr yn ochr â dysgwyr. Er hynny, ar gyfer ychydig o ddysgwyr SSIE, nid oes digon o gymorth llythrennedd yn y dosbarth. Mewn grŵp datblygiad cymunedol i ddysgwyr sydd â phroblemau iechyd meddwl, mae gweithiwr cymorth personol yn mynd gydag ychydig o ddysgwyr i'w dosbarth. Mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio deunyddiau a chyfarpar cymorth ychwanegol, gan gynnwys deunyddiau darllen ar bapur lliw, deunyddiau wedi'u hargraffu mewn ffont mawr, a chaledwedd a meddalwedd TG wedi'u haddasu. Nid yw lleiafrif o diwtoriaid yn ddigon ymwybodol o'r math hwn o gymorth na sut i gael mynediad iddo ar gyfer eu dysgwyr.

69 Mae'r holl ddarparwyr yn defnyddio Prosiect Gofal Plant Genesis i gynnig gofal plant i ddysgwyr. Mae Coleg Powys hefyd yn cadw nifer o leoedd gyda darparwyr gofal plant lleol. Mae hyn yn helpu mwy o ddysgwyr i fynychu dosbarthiadau. Mewn ychydig o achosion, nid yw'r dysgwyr yn sicrhau gofal plant, ac nid yw ychydig o ddysgwyr yn gallu cael gwybodaeth am ba ofal plant sy'n cael ei gynnig. Mae'n anodd iddynt i fynychu dosbarthiadau yn rheolaidd felly.

70 Mae gan y rhan fwyaf o ddarparwyr gronfeydd cymorth neu gronfeydd caledi ar gyfer dysgwyr y mae angen cymorth ariannol arnynt. Nid yw darparwyr bob amser yn trefnu i'r wybodaeth hon fod ar gael yn hawdd. Mae dysgwyr ar ychydig o gyrsiau yn

gallu cael cyllid Cyfrif Dysgu Unigol (CDU). Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, mae tiwtoriaid naill ai'n darparu deunyddiau i ddysgwyr am bris llai neu'n benthyg amrywiaeth o gyfarpar a deunyddiau. Mae hyn yn helpu'r dysgwyr i gwblhau'u cyrsiau.

71 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwybod beth i wneud os oes cwyn ganddynt. Mae darparwyr yn hyfforddi tiwtoriaid hefyd ynglŷn â gweithdrefnau cwyno a pholisïau a gweithdrefnau ar gyfer gweithio gydag oedolion agored i niwed. Mae archwiliadau cyfredol y Swyddfa Cofnodion Troseddol gan fwyafrif y tiwtoriaid, ac ychydig o diwtoriaid yn unig oedd yn dal i fynd drwy'r broses glirio adeg yr arolygiad.

72 Mae'r holl ddarparwyr yn cynnal asesiadau risg o weithgareddau ac mae mwyafrif y lleoliadau a welwyd yn ystod yr arolygiad yn hygyrch i'r holl ddysgwyr.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

**Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?**

**Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

73 Mae gan y bartneriaeth weledigaeth glir ar gyfer DOG ym Mhowys sydd wedi'i nodi'n glir yn ei chylch gwaith. Mae gan y bartneriaeth nodau clir a pherthnasol sy'n cyfateb yn llwyddiannus i flaenoriaethau dysgu a medrau cenedlaethol ehangach y Cynulliad.

74 Mae gan y bartneriaeth drefniadau effeithiol ar waith i reoli'i gwaith. Mae grŵp strategol a gweithredol yn cyfarfod yn rheolaidd, ac mae pob un o'r darparwyr DOG yn mynychu'n dda. Fodd bynnag, nid oes gan gynrychiolwyr Cyngor Sir Powys ar grŵp rheoli'r bartneriaeth ddigon o awdurdod i wneud penderfyniadau ynglŷn ag adnoddau ar lefel strategol er mwyn cyflawni cynllun gweithredu Strategaeth Dysgu Oedolion a Chymunedol Powys. Mae'r bartneriaeth ar gyfnod cynnar o ran datblygu, ond mae eisoes yn gwella cydweithio. Mae partneriaid unigol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd yn ôl nodau strategol cyffredin. Mae rheolwyr yn sicrhau bod Adroddiadau Hunanasesu (AHau) yn adlewyrchu nodau strategol cyffredinol y bartneriaeth a'u bod yn cyfrannu'n effeithiol at yr AH ar y cyd. Mae hyn yn gwella gallu darparwyr unigol i weithio ar lefel fwy strategol ym Mhowys.

75 Mae'r bartneriaeth wedi'i rhoi ei hun mewn sefyllfa dda i fod yn bartner allweddol ar gyfer cyflwyno Strategaeth Gymunedol Cyngor Sir Powys. Mae'r bartneriaeth yn gwneud cyfraniad da at wella cynhwysiad cymdeithasol a gwella ansawdd bywyd i ddysgwyr sy'n oedolion. Mae'n gwneud hyn drwy amrywiaeth o weithgareddau datblygiad cymunedol. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth yn gwireddu potensial llawn y gweithgareddau hyn yn ddigon da. Nid yw'n rhannu dealltwriaeth gyffredin ac nid oes ganddi drosolwg strategol ar gyfer ymgysylltiad cymunedol ac adeiladu gallu cymunedol ym Mhowys.

76 Mae'r bartneriaeth wedi ymrwymo i godi safonau ar draws yr holl ddarpariaeth DOG. Mae wedi cyflwyno CDU safonedig ar gyfer dysgwyr, ac wedi cynhyrchu adroddiad hunanasesu (AH) a Chynllun Datblygu Ansawdd (CDA) am y tro cyntaf. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r partneriaid wedi gwreiddio'r mesurau hyn yn ddigon da i effeithio ar safonau.

77 Nid yw'r bartneriaeth yn rheoli gwella perfformiad yn ddigon da eto. Nid yw'r Cyngor Sir yn rheoli'i ddarpariaeth rhyddfraint â Choleg Powys yn ddigon manwl. Nid yw'r cyngor yn monitro'n ffurfiol yn erbyn y dangosyddion perfformiad y mae wedi'u cytuno yn y cytundeb lefel gwasanaeth. Hefyd, nid yw CDA y bartneriaeth yn cynnwys camau gweithredu clir, graddol wedi'u cyfyngu gan amser. Mae hyn yn golygu na all y bartneriaeth fonitro'n ddigon gweithredol faint o gynnydd y mae'n ei wneud.

78 Mae darparwyr wedi defnyddio aelodaeth o'r bartneriaeth DOG ddiwygiedig yn dda i hyrwyddo'u darpariaeth yn fwy strategol. Un enghraifft dda o hyn yw'r gwaith cyhoeddusrwydd ar y cyd. Nid yw gwaith y bartneriaeth wedi'i ddatblygu gystal

mewn cynllunio strategol. Er ei bod wedi archwilio'r cwricwlwm DOG ym Mhowys, nid yw wedi defnyddio'r wybodaeth hon eto i nodi bylchau neu ailadrodd. Mae hyn yn golygu nad yw'r bartneriaeth ar hyn o bryd yn gallu cynllunio'r ddarpariaeth yn strategol a'u thargedu i sicrhau ei heffaith orau i ddysgwyr.

**Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?**

**Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

79 Mae'r bartneriaeth wedi cynhyrchu AH a CDA cynhwysfawr ar y cyd. Fe wnaeth hyn gynnwys pob darparwr a phob aelod staff ar bob lefel. Mae'r holl bartneriaid yn gweithio'n dda â'i gilydd tuag at gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn yr AH. Mae CDA y bartneriaeth yn gwneud defnydd da o asesiadau risg i gwblhau camau allweddol o fewn graddfeydd amser cytûn.

80 Mae gan y bartneriaeth a'i darparwyr drefniadau hunanasesu da ar gyfer monitro a gwella ansawdd y ddarpariaeth. Mae Rheolwyr yn defnyddio'r Fframwaith Arolygu Cyffredin yn dda i asesu'r ddarpariaeth. Mae adolygiadau cwrs o ansawdd da yn arwain at gamau clir ar gyfer gwella yng nghyrsiau Addysg Sylfaenol Oedolion a chyrsiau Dysgu Oedolion Coleg Powys. Mae cynlluniau gweithredu ar lefel cwrs gan ychydig o ddarparwyr unigol nad ydynt yn ddigon manwl. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd dweud beth yw'r camau penodol i wella ansawdd a'r modd y bydd partneriaid yn mesur cynnydd.

81 Mae rheolwyr yn defnyddio gweithio mewn partneriaeth yn dda i gynllunio a chyflawni gwella ansawdd. Mae gan yr holl ddarparwyr fesurau priodol ar waith i adolygu staff a pherfformiad i wella a chynorthwyo perfformiad staff. Mae'r bartneriaeth yn datblygu prosesau sicrhau ansawdd cyffredin yn llwyddiannus, ac mae'n rhannu hyfforddiant datblygu staff sy'n ategu'r rhain. Er enghraifft, yn ddiweddar mae llawer o'r staff wedi mynychu hyfforddiant ar y cyd ar weithredu a defnyddio Cynlluniau Dysgu Unigol. Er ei bod yn beth da bod y trefniadau hyn ar waith, mae'n rhy gynnar i'r bartneriaeth asesu'r effaith ar wella ansawdd.

82 Mae trefniadau da gan yr holl ddarparwyr i arsylwi tiwtoriaid yn y dosbarth. Mae effeithiolrwydd y cynllun arsylwi yn amrywio ar draws y bartneriaeth. Yn yr achosion gorau, mae'r tiwtoriaid yn cael adborth llafar ac adborth ysgrifenedig da a chywir ar eu perfformiad. Mewn ychydig o achosion, nid yw'r adborth yn nodi'r hyn y mae angen i diwtoriaid ei wneud i wella'u haddysgu yn ddigon da.

83 Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n effeithiol i rannu arfer dda. Mae Coleg Powys yn trefnu bod system gyfathrebu effeithiol, yn seiliedig ar TGCh o'r enw Moodle ar gael i'r bartneriaeth. Mae darparwyr yn gwneud defnydd da o Moodle i rannu enghreifftiau o ddogfennau gwella ansawdd. Mae un darparwr, sy'n newydd i'r bartneriaeth, wedi disodli hunanasesiad ei sefydliad â thempled a fabwysiadwyd gan y bartneriaeth. Yn ddiweddar, mae'r bartneriaeth wedi dechrau casglu a rhannu data defnyddiol i helpu dadansoddi a monitro ei pherfformiad. Fodd bynnag, nid yw'n gwneud defnydd effeithiol o ddata bob amser i osod targedau ar gyfer gwella.

84 Mae'r bartneriaeth a'i darparwyr yn ymgynghori â dysgwyr yn dda. Maent wedi defnyddio'r canlyniadau i wella cynllunio'r cwricwlwm. Maent yn gwneud hyn drwy ddigwyddiadau ymgynghori cymunedol, sioeau pen ffordd, holiaduron ac arolygon.

**Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?**

**Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

85 Mae'r bartneriaeth wedi gwneud cynnydd da wrth reoli'i hadnoddau. Mae'r adolygiad diweddar o ddysgu oedolion ym Mhowys wedi gwella'r trefniadau ariannu ac wedi cynyddu aelodaeth y bartneriaeth. Er bod y bartneriaeth yn gwneud cynnydd, nid yw eto wedi nodi ystod lawn yr adnoddau y mae'r holl bartneriaid yn dod â nhw i'r bartneriaeth. Mae hyn yn golygu nad yw'r bartneriaeth yn gwybod yn ddigon clir pa mor effeithiol y mae'n defnyddio adnoddau i wella dysgu oedolion yn y gymuned ym Mhowys. Er enghraifft, nid yw'r rhaglenni TG, Celf ac Iechyd a Ffitrwydd sy'n cael eu rhedeg gan Gyngor Sir Powys mewn amgueddfeydd, canolfannau hamdden a lleoliadau eraill yn y gymuned wedi'u cynnwys yng nghynlluniau'r bartneriaeth. Nid yw cynllunio strategol y bartneriaeth yn rhoi digon o ystyriaeth i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

86 Mae'r holl ddarparwyr yn y bartneriaeth yn cadw cofnodion da o gymwysterau a phrofiad staff. Mae cymwysterau da gan lawer o diwtoriaid, a phrofiad perthnasol yn y pynciau y maent yn eu haddysgu. Mae'r holl ddarparwyr yn y bartneriaeth yn cynnal adolygiadau staff. Yn yr achosion gorau, mae darparwyr yn defnyddio'r cofnodion a'r adolygiadau hyn yn dda i leoli tiwtoriaid ac i drefnu rhaglenni datblygu staff.

87 Mae darparwyr yn y bartneriaeth yn gweithio'n dda yn unigol a gyda'i gilydd i gynnig cyfleoedd da i ddatblygu staff. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o Gronfeydd Buddsoddi Cyffredin Llywodraeth y Cynulliad i hyfforddi staff mewn medrau sylfaenol ac i ddatblygu hyfforddiant sefydlu ar draws y bartneriaeth i diwtoriaid.

88 Mae Coleg Powys yn helpu'r bartneriaeth i ddatblygu ei hadnoddau trwy gynnal gwefan, sef http://www.epowys.net. Mae hyn yn rhannu amrywiaeth o adnoddau rheoli, addysgu a dysgu yn effeithiol â staff a dysgwyr yr holl ddarparwyr.

89 Mae mwyafrif y dysgwyr mewn dosbarthiadau TG yn gallu defnyddio cyfarpar a meddalwedd diweddar yn eu dosbarthiadau. Er hynny, nid yw'r adnoddau TGCh yn ddigon da ar gyfer lleiafrif o ddysgwyr eraill dysgu oedolion yn y gymuned. Er enghraifft, ychydig o fyrddau gwyn electronig sydd mewn lleoliadau cymunedol. Mewn lleiafrif o sesiynau mewn lleoliadau cymunedol, nid oes digon o adnoddau addysgu a dysgu ar gyfer dysgwyr SSIE.

90 Yn gyffredinol, mae lleoliadau sy'n cael eu defnyddio gan y bartneriaeth yn hygyrch i ddysgwyr dysgu oedolion yn y gymuned. Nid yw ychydig o leoliadau'n addas. Er enghraifft, mae dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion a Dysgu Oedolion sy'n cael eu cynnal mewn ysgolion iau yn defnyddio celfi sy'n rhy fach i ddysgwyr eu defnyddio'n esmwyth ac yn ddiogel. Mewn llawer o ystafelloedd dosbarth a chanolfannau, nid oes digon o ddeunydd diddorol yn cael ei arddangos ac nid ydynt yn ddigon croesawgar i ddysgwyr sy'n oedolion.

91 Yn yr achosion gorau, mae darparwyr ar lefel weithredol yn gweithio'n dda â'i gilydd i nodi adnoddau sy'n gwella rhaglenni i ddysgwyr dysgu oedolion yn y gymuned. Er enghraifft, mae Fforwm Hyfforddi mewn ward Cymunedau yn Gyntaf yn dod â darparwyr y bartneriaeth, darparwyr gofal plant a rheolwyr lleoliadau lleol ynghyd i ddatblygu rhaglenni addysg ar gyfer dysgwyr lleol sy'n oedolion.

92 At ei gilydd, mae darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned Powys yn rhoi gwerth digonol am arian.

## Safonau a gyflawnir gan ddysgwyr yn y meysydd dysgu a arolygwyd

**Maes dysgu: Addysg Sylfaenol Oedolion a Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill**

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?**

**Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

93 At ei gilydd, mae'r cyfraddau cyrhaeddiad ar gyfer ASO ac SSIE yn foddhaol ac yn dangos tuedd sy'n gwella er 2005. Ar gyfer ychydig o gyrsiau, mae cyfraddau cyrhaeddiad llythrennedd yn dda iawn. Mewn SSIE mae'r gyfradd cyrhaeddiad ar gyfer siarad a gwrando yn dda iawn hefyd. Mae'r cyfraddau cwblhau ar gyfer ASO ac SSIE yn wael ar draws y ddarpariaeth. Mae'r niferoedd sy'n cofrestru ar gyfer SSIE wedi cynyddu gryn dipyn dros y cyfnod tair blynedd hyd at 2006-2007.

94 Mae CDU gan bob dysgwr, ond nid yw'r rhain yn arwain dysgwyr SSIE ar lefelau gallu is yn ddigon da. Nid yw dysgwyr bob amser yn deall yr iaith a ddefnyddir i ysgrifennu'u targedau ac nid ydynt yn siŵr sut i wella. Nid yw lleiafrif o ddysgwyr SSIE yn aros ar gyrsiau'n ddigon hir i sefyll arholiad.

95 Mae mwyafrif y dysgwyr ASO yn gwneud cynnydd da gyda'u medrau a'u dealltwriaeth llythrennedd a rhifedd. Fe wnaeth bron yr holl ddysgwyr mewn dosbarthiadau ASO yn narpariaeth Coleg Powys yn 2006-2007 symud ymlaen i lefel uwch. Er enghraifft, fe wnaeth bron yr holl ddysgwyr symud ymlaen o ddosbarth cyflwyniadol sy'n ceisio gwella medrau sylfaenol a medrau TG i fedrau sylfaenol lefel 1. Mewn ychydig o achosion, mae dysgwyr yn symud ymlaen o ddosbarthiadau ASO i gyrsiau mewn meysydd dysgu eraill, er enghraifft Cymraeg i Oedolion, CLAIT a threfnu blodau.

96 Nid yw llawer o ddysgwyr SSIE yn datblygu'u medrau iaith Saesneg yn ddigon da. Yn y rhan fwyaf o achosion, dim ond un dosbarth yr wythnos maent yn gallu'i fynychu. Nid ydynt yn cael digon o gyfle i ymarfer, gwella a chyfnerthu'u medrau iaith mewn dosbarthiadau. Mae lefel resymol o ddealltwriaeth oddefol gan yr holl ddysgwyr SSIE bron. Fodd bynnag, nid ydynt yn ymarfer siarad ac ysgrifennu digon i wella'u defnydd gweithredol o'r iaith. Mewn lleiafrif o achosion, mae presenoldeb gwael yn y dosbarthiadau SSIE yn rhwystro cynnydd dysgwyr yn ormodol.

97 Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth maent yn ei gael gan diwtoriaid a dysgwyr eraill. Maent yn gweithio'n dda â'i gilydd ac yn cynnig cefnogaeth ac anogaeth i'w gilydd. Er enghraifft, mae'r dysgwyr mwy galluog mewn dosbarth rhifedd yn cynnig cymorth i'r rhai llai galluog mewn ymarferiad ymarferol. Mae'r holl ddysgwyr bron yn gwella'u medrau dysgu'n annibynnol gan ddefnyddio gwaith cartref, geiriaduron a thrwy fynd at wefannau perthnasol. Mae'r holl ddysgwyr bron yn dod yn fwy hyderus ac yn gwella'u hunanhyder. Mae un dysgwr wedi dysgu darllen am y tro cyntaf yn ei fywyd. Mewn ychydig o achosion, mae dysgwyr yn gallu cyflawni canlyniad swydd yn sgil mwy o hunangred a medrau newydd eu datblygu. I lawer o ddysgwyr sy'n methu yn yr ysgol, mae hyn yn gryn gyflawniad.

**Maes dysgu: Cymraeg i Oedolion**

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?**

| **Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion** |
|---|

98 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr wedi'u cymell yn dda ac yn frwdfrydig ac yn ymwybodol o fanteision dysgu Cymraeg. Maent yn gwneud cynnydd da tuag at y nodau dysgu cyffredinol y maent wedi'u gosod ar gyfer eu cyrsiau, ac yn cyflawni safon dda o waith. Fodd bynnag, nid yw bron i hanner y dysgwyr yn sylweddoli pa mor dda y maent yn dod yn eu blaenau ac nid ydynt yn deall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.

99 Mae'r gyfradd presenoldeb gyffredinol, sef 78%, uwchlaw'r cyfartaledd o 73% a gofnodwyd mewn arolygiadau eraill o Ddysgu Oedolion yn y Gymuned. Mae'r niferoedd sy'n cofrestru wedi cynyddu er 2005-2006. Fe wnaeth 798 o ddysgwyr gofrestru yn 2005-2006 a 980 o ddysgwyr yn 2006-2007. Mae'r cofrestriadau ar gyfer tymor cyntaf 2007-2008 yn uwch na'r niferoedd a gofrestrodd yn y tymor cyfatebol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf[1].

100 Roedd y cyfraddau cyrhaeddiad ar 40% yn 2005-2006, gan gynyddu i 55% yn 2006-2007. Roedd y cyfraddau cwblhau yn 2005-2006 ar 81%, gan gynyddu i 84% yn 2006-2007. Mae hyn uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol, sef 81%, ar gyfer cyfraddau cwblhau.

101 Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu medrau siarad a gwrando da. Mae dysgwyr llwyddiannus ar gyrsiau lefel mynediad Wlpan, er enghraifft, yn gallu cynnal sgwrs sylfaenol gydag ynganu da ar ôl mynychu'r cwrs am dri mis yn unig. Nid yw ychydig o ddysgwyr, fodd bynnag, yn gwneud cynnydd priodol ar gyfer lefel eu cwrs. Mae angen i diwtoriaid brocio dysgwyr ar ychydig o gyrsiau lefel mynediad yn gyson i gynhyrchu brawddegau gan ddefnyddio patrymau iaith sylfaenol. Mae ychydig o ddysgwyr yn defnyddio gormod o Saesneg yn y dosbarth, ac o ganlyniad, nid ydynt yn datblygu'u medrau llafar Cymraeg yn ddigon da.

102 Mae llawer o ddysgwyr yn gallu darllen testunau syml gydag ystyr a goslef dda. Mae ychydig o ddysgwyr mwy datblygedig yn darllen straeon byr, nofelau ar gyfer dysgwyr Cymraeg, papurau newydd, cylchgronau a phapurau bro[2].

103 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cwblhau tasgau ysgrifenedig sy'n briodol i'w lefel, yn y dosbarth ac ar gyfer gwaith cartref. Mae mwyafrif y dysgwyr sy'n mynychu cyrsiau lefel uwch yn gallu ysgrifennu gyda chywirdeb cynyddol ac maent yn dechrau cynnwys idiomau Cymraeg yn eu gwaith.

104 Mae'r dysgwyr i gyd yn cefnogi'i gilydd yn dda, ac yn helpu'i gilydd i ddysgu yn aml. Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr berthynas weithio dda hefyd â'u tiwtoriaid. Mae hyn yn helpu hunanhyder a chymhelliant dysgwyr. Mae lleiafrif o ddysgwyr, fodd bynnag, yn dibynnu gormod ar eu tiwtoriaid ac nid ydynt yn datblygu fel siaradwyr Cymraeg annibynnol.

---

[1] Data heb ei ddilysu a ddarparwyd gan Brifysgol Aberystwyth
[2] Papurau newydd lleol

105 Mae ychydig o ddysgwyr, ar bobl lefel, yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain ac yn ymarfer eu medrau siarad Cymraeg drwy fynychu cyfleoedd dysgu ychwanegol sydd ar gael yn y gymuned. Mae hyn yn eu helpu i ymarfer a gwella'u medrau iaith.

**Maes dysgu: Dysgu Oedolion**

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

106 Mae cyfraddau cwblhau dysgwyr ar gyrsiau achrededig ac anachrededig yn dda yn gyffredinol. Fodd bynnag, amrywiol yw'r cyfraddau cyrhaeddiad ar gyrsiau achrededig. Mae'r cyfraddau cyrhaeddiad ar raglenni mynediad i addysg uwch yn dda, ond nid yw'r cyfraddau cyrhaeddiad ar raglenni tystysgrifedig eraill ar lefel gyson dda rhwng 2005-2008.

107 Mae rhan fwyaf y dysgwyr mewn dosbarthiadau dysgu oedolion yn gwneud cynnydd da. Mewn astudiaethau amgylcheddol, mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn gwneud defnydd da o ffynonellau gwybodaeth o'r radio, teledu a'r rhyngrwyd. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o faterion cynaliadwyedd, ac maent yn gallu dweud beth mae'r materion hyn yn ei olygu i'r ardal leol. Mewn ieithoedd tramor modern, mae dysgwyr mewn dosbarthiadau Rwsieg yn gallu cyflwyno testun mewn Rwsieg ac ateb cwestiynau dysgwyr eraill gyda mesur o rugldeb. Mewn dosbarthiadau fel crefft siwgr, trefnu blodau a helyg creadigol, mae llawer o ddysgwyr yn gallu cymhwyso medrau'n llwyddiannus i wneud arteffactau o ansawdd uchel iawn i'w dyluniad eu hunain.

108 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu medrau allweddol ehangach trwy dasgau y maent yn ymgymryd â nhw yn y dosbarth. Mewn ychydig o achosion, mae dysgwyr yn defnyddio'r medrau TG y maent yn eu dysgu i archebu nwyddau o archfarchnadoedd drwy'r rhyngrwyd fel dull amgen o siopa. Nid yw medrau ysgrifennu ychydig o ddysgwyr mewn dosbarthiadau mynediad i addysg uwch a dosbarthiadau TG yn foddhaol. Nid ydynt yn talu digon o sylw i ramadeg a sillafu.

109 Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn llawn cymhelliant. Fe wnaeth 78% o ddysgwyr fynychu dosbarthiadau dysgu oedolion yn ystod yr arolygiad. Mae hyn dri phwynt canran uwchlaw'r presenoldeb cyfartalog ar gyfer yr holl ddysgwyr DO yn ystod arolygiadau yn y cylch arolygu er 2004. Yn yr achosion gorau, mae dysgwyr yn cael eu cymell i ddatblygu'u dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mewn helyg creadigol, mae rhan fwyaf y dysgwyr yn cynllunio dyluniadau da ar gyfer y cynhyrchion maent yn eu gwneud.

110 Mewn llawer o achosion, mae dysgwyr yn defnyddio medrau newydd eu datblygu i ymestyn eu gallu i ennill cyflog. Mae dysgwr o ardal ffermio yr effeithiwyd arni gan glwy'r traed a'r genau yn defnyddio'i medrau TG yn dda i gynorthwyo menter fusnes amgen mewn gwely a brecwast.

111 Mae rhan fwyaf y dysgwyr yn dod i ddosbarthiadau wedi'u paratoi'n dda. Mewn dosbarthiadau trefnu blodau, mae llawer o ddysgwyr yn dod ag adnoddau o'u gerddi, ac maent yn eu rhannu gyda dysgwyr eraill. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddysgwyr yn ddigon ymwybodol o faterion iechyd a diogelwch.

112 Mae rhan fwyaf y dysgwyr yn ymgysylltu'n weithredol mewn sesiynau. Mewn dosbarthiadau crochenwaith, mae'r dysgwyr yn ddigon hyderus i ofyn cwestiynau craff i'r tiwtoriaid, ac i ddatblygu'u syniadau eu hunain sy'n hyrwyddo'u dysgu. Fodd bynnag, mewn ychydig o ddosbarthiadau, nid yw dysgwyr yn cyfrannu digon at drafodaethau dosbarth.

113 Mewn llawer o ddosbarthiadau, mae dysgwyr yn cynorthwyo dysgu'i gilydd yn dda. Mewn ychydig o achosion, mae dysgwyr mewn cymunedau anghysbell yn ffurfio rhwydweithiau cymdeithasol ac yn cynnal eu cysylltiadau y tu allan i'r dosbarth. Mewn dosbarthiadau ysgrifennu creadigol, mae dysgwyr yn ennill hyder drwy allu cynhyrchu ysgrifennu sydd o ddiddordeb i bobl eraill.

114 Mae dysgwyr hŷn yn defnyddio cyfleoedd dysgu yn dda i barhau i fod yn weithgar yn eu cymunedau ac i deithio i ardaloedd eraill i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae dysgwyr hŷn mewn dosbarthiadau TG yn defnyddio'r e-bost yn dda i gadw cysylltiad rheolaidd â pherthnasau a ffrindiau o amgylch y byd. Mae datblygu'r medrau hyn yn cyfrannu at les dysgwyr hŷn.

**Maes dysgu: Datblygiad Cymunedol**

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

115 Mewn Datblygiad Cymunedol, mae cyfraddau cofrestru, cwblhau a chyrhaeddiad yn dda ac yn gwella. Mae cofrestriadau ar gyrsiau Coleg Powys wedi cynyddo o 240 o ddysgwyr yn 2005-2006 i 1,266 yn 2006-2007. Mae cofrestriadau ar gyrsiau YMCA wedi cynyddu hefyd dros yr un cyfnod, o 393 o ddysgwyr yn 2005-2006 i 514 yn 2006-2007. Mae cyfraddau cyrhaeddiad ar gyfer cyrsiau achrededig ar gyfer yr holl ddarparwyr wedi cynyddu hefyd o gyfartaledd o 77% i 84% dros yr un cyfnod. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddysgwyr yn parhau â'r cyrsiau y maent wedi'u dechrau. Mae cyfraddau cwblhau dysgwyr yn amrywio o 69% mewn un darparwr i 99% mewn darparwr arall.

116 Mae llawer o ddysgwyr yn ymgysylltu'n dda â'u tiwtor a'u cymheiriaid, ac yn gweithio'n effeithiol â'i gilydd i gynorthwyo a gwella dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyflawni safonau da neu dda iawn yn eu gwaith cwrs. Maent yn gwybod beth maent eisiau ei ddysgu, a pha mor dda maent yn gwneud. Maent yn trefnu eu ffeiliau'n dda ac yn cadw cofnodion da o'u gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mynd ymlaen at gyrsiau eraill, gan gynnwys symud ymlaen at fedrau lefel uwch. Er enghraifft, mae dysgwyr yn dechrau gyda sut i droi cyfrifiadur ymlaen, dewis rhaglenni, a threfnu ffeiliau. Yna maent yn mynd ymlaen i ddefnyddio pecynnau cyhoeddi pen desg, a chreu a thrafod taenlenni.

117 Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud defnydd da o'u dysgu trwy ddefnyddio'u medrau a'u gwybodaeth yn eu bywydau bob dydd. Er enghraifft, mae dysgwyr yn gallu rheoli sefyllfaoedd o wrthdaro yn well, defnyddio TGCh ar eu cyfrifiadur gartref, a defnyddio agweddau ar reoli fferm yn eu bywydau cartref a gweithgareddau busnes eraill. Hefyd, mae llawer o'r dysgwyr mwy agored i niwed yn gwella'u hunanhyder a'u medrau cymdeithasol er eu bod yn dechrau o drothwy hyder isel.

118 At ei gilydd, roedd 85% o ddysgwyr mewn dosbarthiadau datblygiad cymunedol yn bresennol yn y sesiynau a arsylwyd. Mae hyn wyth pwynt canran yn uwch na'r ffigurau presenoldeb cyfartalog a welwyd ar arolygiadau eraill o ddosbarthiadau datblygiad cymunedol.

## Ymateb darparwyr i ganfyddiadau'r adroddiad

Mae aelodau Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Powys yn croesawu'r adroddiad hwn, ac mae wedi'i gyflwyno ar gyfnod pwysig yn natblygiad y Bartneriaeth.

Rydym yn falch o nodi'r gydberthynas gref rhwng canfyddiadau'r tîm arolygu â'r rheiny yn ein hadroddiad hunanasesu ni'n hunain, a byddwn yn ystyried argymhellion yr adroddiad yn ofalus gyda golwg ar eu hymgorffori yng nghynllun datblygu ansawdd y Bartneriaeth lle bydd hynny'n briodol.

O ystyried natur wledig yr ardal, a'i strwythur demograffig ac economaidd, mae'n braf gweld bod yr adroddiad wedi cydnabod a chymeradwyo dosbarthiad daearyddol y ddarpariaeth, a'r ymateb da i anghenion cyflogwyr.  Mae'r rhain yn heriau penodol ym Mhowys, ac yn y gorffennol mae aelodau unigol y Bartneriaeth wedi mynd i'r afael â nhw'n effeithiol, a byddant yn cael eu datblygu ymhellach drwy ein hymdrechion cydlynus yn y dyfodol.

Rydym yn deall yr angen i wella rheolaeth strategol yr holl agweddau ar waith y Bartneriaeth, ac i sicrhau defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned yn effeithiol.  Yn benodol, byddwn yn ymgysylltu ymhellach â phartneriaethau lleol eraill er mwyn cyfrannu ymhellach at eu gwaith o ymgysylltu ac adeiladu gallu o fewn cymunedau amrywiol y Sir.

Credwn fod yr adroddiad hwn yn cefnogi ein barn bod y Bartneriaeth yn ychwanegu gwerth at waith darparwyr unigol, ac y gallwn yn awr symud ymlaen gyda'n gilydd i wella cyfranogiad ac ansawdd dysgu oedolion ledled cymunedau Powys.

# Atodiad 1

**Sail dystiolaeth yr arolygiad**

Roedd y tîm arolygu yn cynnwys AEM, arolygwyr ychwanegol ac asesydd cymheiriaid. Cynhaliodd y tîm 54 o ymweliadau arolygu a 24 o gyfarfodydd ym mis Mawrth 2008.

Ymwelodd y tîm â'r canlynol:

- sesiynau addysgu;
- amrywiaeth o weithgareddau dysgwyr; a
- lleoliadau cymunedol.

Fe wnaeth aelodau'r tîm gyfarfod â:

- dysgwyr;
- tiwtoriaid;
- rheolwyr;
- Pennaeth a Llywodraethwyr Coleg Powys;
- y Pennaeth Ysgolion a Chynhwysiad, a swyddogion, Cyngor Sir Powys;
- Cyfarwyddwr a Chadeirydd Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys;
- rheolwr a staff gwasanaeth Cymraeg i Oedolion Prifysgol Aberystwyth;
- Cyfarwyddwr y YMCA;
- rheolwyr a staff o CAG(De); a
- rheolwyr, staff a llywodraethwr o CAG Coleg Harlech.

Hefyd, ystyriwyd y canlynol gan y tîm:

- detholiad eang o waith dysgwyr; a
- dogfennaeth gynhwysfawr y trefnwyd ei bod ar gael gan ddarparwyr, cyn yr arolygiad ac yn ystod yr arolygiad.

# Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Rachael Bubalo AEM | Arolygydd Cofnodol |
| Enid Hankins AEM | Dirprwy Arolygydd Cofnodol |
| Gerard Kerslake AEM | Arolygydd Tîm |
| Penny Lewis AEM | Arolygydd Tîm |
| Jenny Blackaby | Arolygydd Ychwanegol |
| Megan Dauksta | Arolygydd Ychwanegol |
| Jo Fowler | Arolygydd Ychwanegol |
| Patrick Gormley | Arolygydd Ychwanegol |
| Gillian Jones | Arolygydd Ychwanegol |
| Steve Mason | Arolygydd Ychwanegol |
| Jina Gwrfai | Asesydd Cymheiriaid |
| Sian Pinner | Enwebai'r darparwr |

## Atodiad 3

**Data ac ystadegau: Nodyn esboniadol**

Mae'r ystadegau a ddisgrifir yn yr adroddiad yn cyfeirio at y **Cymaryddion Cenedlaethol ar gyfer Addysg Bellach a Dysgu yn y Gwaith** ar gyfer 2004/2005 ac maent wedi'u seilio ar **Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru.** Casglwyd yr ystadegau hyn gan APADGOS o ddata a ddarparwyd gan fudiadau a sefydliadau unigol, ac maent yn rhoi data cymharol ar gyfer amrywiaeth o gyrsiau ar draws 15 o feysydd dysgu.

Mae'r Cymaryddion Cenedlaethol yn galluogi arolygwyr i gymharu data tebyg ar gyfer mudiadau a sefydliadau unigol, ac i lunio barnau am berfformiad cyrsiau a meysydd dysgu penodol o fewn sefydliadau a mudiadau.

Un set o Gymaryddion Cenedlaethol sydd ar hyn o bryd:

**Cwblhau** – mae'r cymharydd hwn yn ymwneud â chanran y dysgwyr sy'n cwblhau eu gweithgaredd dysgu, mewn geiriau eraill, canran y dysgwyr sy'n cofrestru ar gyrsiau ac sy'n aros ar eu cwrs hyd at y diwedd. Fodd bynnag, nid yw cymaryddion cenedlaethol ar gael ar gyfer yr ystod llawn o gyrsiau y mae dysgu oedolion yn y gymuned yn eu cwmpasu.

Mae arolygwyr yn defnyddio **Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru** i bennu maint a graddfa darpariaeth mewn ardal ac i gymharu cwmpas darpariaeth pob darparwr.

**Data'r darparwr ei hun**

Mae Estyn o'r farn y dylai darparwyr fod yn monitro perfformiad eu darpariaeth DOG er mwyn asesu ansawdd cyrsiau sy'n cael eu cynnig i ddysgwyr sy'n oedolion ac i wella canlyniadau i ddysgwyr.

Mae Estyn yn gofyn i ddarparwyr roi crynodeb o'u data eu hunain cyn arolygiad am berfformiad cyrsiau a chymwysterau unigol, ac adrodd ar:

- gofrestriadau;
- cwblhau;
- cyrhaeddiad; a
- thueddiadau dros amser.

Mae arolygwyr yn defnyddio'r data a ddarperir i gymharu perfformiad meysydd dysgu a chyrsiau unigol â chymaryddion cenedlaethol ar gyfer cwblhau. Mae arolygwyr hefyd yn defnyddio'r data, ynghyd â thystiolaeth uniongyrchol, i lunio barnau am y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr.